

Gwynnu*'r dannedd

Beth ydi hynny?

Fel gyda gwallt a chroen, mae lliw dannedd yn amrywio. Mae rhai'n felynach neu'n dywyllach na'i gilydd, hyd yn oed os ydyn nhw'n eithaf iach. Mae dannedd yn dueddol o dywyllu wrth i chi fynd yn hŷn.



Gall dannedd weithiau dywyllu os ydi'u gwreiddiau nhw wedi'u difrodi* neu wedi'u heintio* a'r nerf wedi 'marw'.

Gellir goleuo lliw dannedd yn effeithiol iawn gyda hydrogen perocsid (cannydd*), a ddefnyddir naill ai ar ochr allanol neu ochr fewnol y dant.

Mae gwynnu dannedd yn gwbl ddiogel cyhyd ag nad ydi'r cannydd yn cyffwrdd eich gorchfannau* a'u llosgi. Mae deintyddion yn defnyddio jeli gwynnu* arbennig.

Beth fydd fy neintydd yn ei wneud?

Pan fo 'nerf' y dant wedi 'marw' (trwy ddifrod neu haint*) a gwraidd y dant wedi'i lenwi, bydd cannydd yn cael ei roi y tu mewn i'r dant o dan ddresin dros dro. Mae'r asiant* gwynnu yn aros yn y dant am tuag wythnos cyn cael ei lanhau fel y gellir gosod llenwad* gwyn.

Mae dau ddull o wynnu'r tu allan i'r dant. Mae un yn digwydd yn y cartref a'r llall yn y ddeintyddfa.

Mae gwynnu yn y cartref yn gweithio fel hyn:

- Bydd eich deintydd yn rhoi i chi jeli gwynnu gwan i'w ddefnyddio gartref mewn cafn* a fydd yn ffitio'n dynn o gwmpas eich dannedd. Mae'r cafn hwn yn sicrhau nad ydi'r jeli'n llosgi'ch gorchfannau. Bydd rhaid i chi gadw'r cafn yn eich ceg am ychydig oriau ar sawl achlysur, yn ôl cyfarwyddyd eich deintydd (dros gyfnod o wythnosau, mae'n debyg).
- Bydd rhaid i'r deintydd ddefnyddio defnydd tebyg i bwti i wneud mowldiau o'ch ceg (a elwir yn 'argraffau'*), fel y gall technegydd deintyddol wneud cafn priodol. Y tro nesaf y cewch eich gweld, bydd eich deintydd yn gwneud yn siŵr bod y cafn yn ffitio ac yn dangos i chi sut i roi'r cannydd yn y cafn pan fyddwch gartref.

Dyma sut y mae gwynnu yn y feddygfa'n gweithio:

- Bydd eich deintydd yn defnyddio jeli gwynnu cryfach na'r un a ddefnyddir ar gyfer gwynnu yn y cartref. Mae deintyddion yn defnyddio'r dull hwn i wynnu'r dannedd i gyd yr un pryd naill ai yn eich gên uchaf neu yn yr isaf. Bydd y cannydd cryf hwn mewn cyffyrddiad â'ch dannedd am lai o amser nag wrth wynnu gartref.
- Mae'n bosib y bydd eich deintydd yn amddiffyn eich gorchfannau. Bydd yn paentio'r cannydd ar y dannedd ac yna naill ai'n taflu golau arbennig arnynt neu'n gadael y cannydd ar y dannedd am ychydig amser.
- Mae'r cannydd wedyn yn cael ei olchi ymaith gyda dŵr.

Bydd eich deintydd yn cofnodi lliw eich dannedd gan ddefnyddio dannedd model o liwiau gwahanol cyn dechrau eich trin. Edrychwch chi eich hun ar gydweddiad* y lliw cyn y driniaeth, fel y gellwch ei gymharu â'r lliw ar ôl gwynnu. Efallai y bydd eich dannedd yn sensitif i fwyd a diod poeth ac oer am ychydig ddyddiau ar ôl gwynnu.

Beth ydi'r manteision?

- Mae gwynnu'n gwella edrychiad eich dannedd heb dynnu dim oddi ar arwyneb y dannedd gwreiddiol. Mae gwynnu'n ddewis gwell na choron* neu argaen* os ydych am oleuo lliw dannedd iach, oherwydd bod gosod coronau ac argaenau yn golygu newid siâp y dant.

GEIRFA: argaen(au) = veneer(s); argraff(au) = impression(s); asiant gwynnu = bleaching/whitening agent; cafn = tray; cannydd = bleach; coron(au) = crown(s); cydweddiad y lliw = colour match; difrodi = to damage; gorchfan(nau) – 'gym(s)' ar lafar = gum(s); gwynnu = to whiten / bleach; haint = infection; heintio = to infect; jeli gwynnu = bleach jelly; llenwad(au) = filling(s)